

# BETH *2020*

# STEM

Mae **S** yn sefyll am gwyddoniaeth

Mae **T** yn sefyll am technoleg

Mae **E** yn sefyll am peirianeg

Mae **M** yn sefyll am mathamateg



Mae stem yn ein bywyd pob dydd. Mae gwyddoniaeth am bioleg e.e. sut ydan yn anadlu ac mae chynnydd yn gweithio. Technoleg: mae technoleg yn defnyddio dylunio fel sut mae cadair wedi cael ei greu ei gynllunio a'i gynhyrchu. Mae peirianeg yn eich car, tŷ, gwaith a bywyd pob dydd mae injan wedi cael ei ddylunio a hefo llawer o ddarnau mân ynddo. Ydach chi'n mynd i siopa neu lenwi car hefo petrol a thalu biliau - mae mathemateg yn cael ei ddefnyddio hefo pob un o'r rhain.

Mae **STEM Gogledd** wedi cael ei sefydlu er mwyn rhoi mwy o gyfleoedd i ni o fewn STEM. Mae o'n helpu ni ddeall pa bynciau a swyddi sydd yn cynnwys sgiliau STEM. Maen nhw yn helpu ni i sylweddoli pa swyddi sydd yn ein hardal ni sydd yn cysylltu efo STEM fel ffarmio, coginio, adeiladu, mecaneg ceir a.y.b. Er ein bod weithiau yn gweithio mewn grŵp i fynd ar ymweliad addysgol, ond rydym hefyd yn cael cynllun unigryw sydd yn ymwneud gyda'r maes STEM sydd gennai diddordeb ynddo.

Pan gyrhaeddodd y Big Bang yn Venue Cymru aethom ni tuag at y car 'back to the future', hefyd mi wnaethom ni weld ceir formula 1. Hefyd gwelsom ni y ceir rally yno yn cael ei rhoi at ei gilydd. Roedd Cwmni Arabus yn gwneud gweithgaredd 'VR' (Virtual Reality) vr yno gyda phlant. Roedd hyn am wahanol fecanweithiau i achub pobl. Yna hefyd roedd argraffydd 3D yn gwneud rocedi, ceir, tai a llawer mwy. Roedd pawb wedi cael cyfle i wneud slime oedd yn cynnwys glud, dwr, blawd corn a borax acid. Rhywbeth arall oedd yn hwyl oedd rasio ceir gyda rheolydd.

Yn fy marn i roedd y Big Bang yn ddiddorol, oherwydd roeddech yn gallu creu sleim. I greu'r sleim oedd angen blawd corn, dŵr a glud ac yna ei gymysgu. Hefyd roedd yna car rally Cymru GB a char F1yno - 'Wow!' Cawsom amser arbennig yn y Big Bang hefo technoleg newydd a chwaneg o weithgareddau hwyl hefo fy ffrindiau. Allan o deg dani yn rhoi naw allan o ddeg i'r Big Bang!